

LLWYD, RICHARD ('Bard of Snowdon'; 1752 - 1835)

Enw: Richard Llwyd
Ffugenw: Bard Of Snowdon
Dyddiad geni: 1752
Dyddiad marw: 1835
Priod: Ann Llwyd (née Bingley)
Rhiant: Alice Llwyd
Rhiant: John Llwyd
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn y King's Head, Biwmares, mab John ac Alice Llwyd. Morwr oedd y tad yn tradio ar raddfa fechan; bu farw yn Warrington, o'r frech wen, pan oedd y plant yn ieuanc. Wedi naw mis yn ysgol ramadeg Biwmares, aeth Richard Llwyd i wasanaethu teuluoedd, gan ddechrau yn sir Fôn; yn 1780 daeth yn steward ac ysgrifennydd i Griffith, Caerhun, gerllaw Conwy. Yn ddiweddarach ymddeolodd ac ymneilltuo i fyw ym Miwmares, ac, o 1807 ymlaen, yng Nghaer. Bu'n foddion i gael gosod cofeb i [David Hughes](#), sefydlydd ysgol rad Biwmares; methodd, fodd bynnag, yn ei ymdrech i gael cofeb i [Owen Jones](#) ('Myfyr'). Dangosasai ers tro fod iddo ddi-ddordeb arbennig yn hanes ac achyddiaeth Cymru, a daeth i gael ei gydnabod yn fath o awdurdod ar y pynciau hynny; bu'n arfaethu cyhoeddi 'History and Location of the Founders of the Regal and Patrician Tribes and other Chieftains. ... Also the Advena [sic], or Families founded by natives of England in its several wars with Wales. ' Rhoes gymorth i awduron megis [Richard Fenton](#), [Syr Richard Colt Hoare](#), a [Peter Roberts](#). Bu hefyd yn astudio rhai o lawysgrifau Hengwrt - ar hyn gweler t. xxi. yn yr 'Introduction' i rifyn cyntaf *N.L.W. Handlist of MSS.*, ac, yn arbennig, Pen. MSS. 425 a 533. Aeth i Lundain yn 1808 i ddarllen yn llyfrgell yr Amgueddfa Brydeinig a daeth i adnabod [Owen Jones](#) ('Myfyr'), [William Owen Pughe](#), [Sharon Turner](#), etc. Oblegid ei gyfathrach â llenorion a rhai o uchelwyr tiriog Gogledd Cymru, bu'n help i gael cymorth ariannol (o'r 'Royal Literary Fund,' etc.) i [David Thomas](#) ('Dafydd Ddu Eryri'), [Richard Robert Jones](#) ('Dic Aberdaron'), a [Jonathan Hughes](#), Llangollen. Priododd, ym mis Mai 1814, Ann Bingley (bu farw 1834), merch yr aldramon Bingley, Caer, ac aeth i fyw yng nghartref ei wraig. Daeth yn aelod anrhydeddus o Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1824. Efe a fu'n foddion i anfon i'r Amgueddfa Brydeinig y gystylltir marw a gysylltir ag enw Branwen ferch Llyr ac a ddarganfuasid, yn 1813, ar lan afon Alaw, sir Fôn. Bu farw 29 Rhagfyr 1835 a chladdwyd ef yng nghell gladdu teulu ei wraig ym mynwent eglwys S. John, Caer.

Cyhoeddodd [Beaumaris Bay](#), ei waith barddonol mwyaf adnabyddus, yn 1800; [Gayton Wake, or Mary Dod](#) (Chester, 1804); a *Poems, Tales, Odes, Sonnets, Translations from the British* (Chester, 1804). Yn 1837 cyhoeddwyd *The Poetical Works of Richard Llwyd, The Bard of Snowdon, comprising Beaumaris Bay ... with a Portrait and a Memoir of the Author*. Yn oedd yn bur gyfarwydd ag [Angharad Llwyd](#) - hyn sydd yn cyfrif paham y ceir rhai o'i lawysgrifau ef ymhlith ei chasgliadau hi (yn Ll.G.C. - casgliad Kinmel Park).

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

y 'Memoir' yn y *The poetical works of Richard Llwyd, the Bard of Snowdon, comprising Beaumaris Bay and other poems, with portrait and memoir of the author*

NLW MSS, 1560-4, 1589, 1595, 1597, 1601, 1617, 1806, 1885, 2042, 13222, 13224, 13232

cofrestri esgobaeth Bangor yn Ll.G.C.

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Llwyd](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [76351321](#)

Wikidata: [Q7327422](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

